Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Mehefin 2018

Amser: 09.00 - 10.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4826

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Jayne Bryant AC Angela Burns AC Rhun ap Iorwerth AC Caroline Jones AC Vikki Howells AC (yn lle Julie Morgan AC) Lynne Neagle AC
Tystion:	Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Dafydd Elis-Thomas AC, Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Nathan Cook, Llywodraeth Cymru John Pugsley, Llywodraeth Cymru

	David Rosser, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Claire Morris (Clerc) Tanwen Summers (Dirprwy Glerc) Amy Clifton (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan AC. Roedd Vikki Howells AC yn bresennol fel dirprwy.

2 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc: Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - 4 Mai 2018

3.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cadeirydd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.2 Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y Cadeirydd - 30 Mai 2018

3.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y Cadeirydd.

3.3 Adroddiad Plant Egnïol Iach Cymru 2018

3.3a Nododd y Pwyllgor adroddiad Plant Egnïol Iach Cymru 2018.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc: trafod y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.